Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: ATISN 25046

08 Medi 2025

Annwyl ,

**Y cais**

Diolch i chi am eich ceisiadau a ddaeth i law ar 11 Awst 2025. Rydym yn crynhoi isod yr wybodaeth yr oeddech yn gofyn amdani sy’n ymwneud â gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, a gyhoeddwyd yn 2017, gan gynnwys:

1. Adroddiadau ar y tair thema strategol
2. Data ystadegol ar siaradwyr Cymraeg a defnydd iaith
3. Dyraniadau cyllideb a gwariant
4. Fframweithiau dangosyddion perfformiad
5. Cofnodion o gydweithio â rhanddeiliaid
6. Asesiadau Effaith mentrau Cymraeg 2050
7. Integreiddio â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

**<u>ATISN 25046 – Ein Hymateb</u>**

**1. Adroddiadau cynnydd a gwerthuso ar gyfer y tri thema strategol: cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu’r defnydd, a chreu amodau ffafriol.**

Mae’r wybodaeth hon ar gael drwy’r dolenni canlynol:

[Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol | LLYW.CYMRU]
[Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU]

**2. Data ystadegol (cychwynnol a chyfredol) ar siaradwyr Cymraeg a’r defnydd dyddiol: cyfrifiad, arolygon, ac ati.**

Mae’r wybodaeth hon ar gael drwy’r ddolen ganlynol: [Ystadegau’r Gymraeg | LLYW.CYMRU]

**3. Manylion dyraniadau cyllideb a gwariant fesul blwyddyn a rhaglen (e.e., grantiau iaith, Perthyn, technoleg).**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymraeg2050@llyw.cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

Mae'r Gymraeg wedi ei phrif-ffrydio ym mhob maes polisi ar draws Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, nid yw'n bosibl nodi union lefel gwariant y Llywodraeth ar y Gymraeg. Fodd bynnag, neilltuwyd £57,184m yn uniongyrchol i gefnogi *Cymraeg 2050* ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys £3.395m ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

Fel rhan o hyn, mae cyfanswm o £1.052m wedi ei wario ar brosiectau Perthyn rhwng 2022-2025. Gweler y manylion drwy'r ddolen yma : Perthyn Mapiau & Ystadegau - Cwmpas

Mae manylion y gwariant 2018-19 ar Dechnoleg yn y grid isod:

| **Blwyddyn** | **Swm** |
|---|---|
| **2025 – 26** | £402,150 |
| **2024 – 25** | £383,000 |
| **2023 – 24** | £418,000 |
| **2022 – 23** | £493,000 |
| **2021 – 22** | £460,000 |
| **2020 – 21** | £467,000 |
| **2019 – 20** | £184,314 |
| **2018 – 19** | £100,000 |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y papur pwyllgor canlynol:

Pwyllgor Diwylliant,  y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

4. **Fframweithiau dangosyddion perfformiad, offer monitro, a dulliau gwerthuso.**

Gweler yr ymateb uchod i ATISN 25046, Cwestiwn 1.

5. **Cofnodion o gydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, mentrau iaith, a rhanddeiliaid allweddol eraill.**

Nid ydym yn dal yr wybodaeth hon.

6. **Asesiadau effaith (AEI, asesiadau cydraddoldeb) sy'n ymwneud â mentrau Cymraeg 2050.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r dolenni canlynol:

- Y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg: asesiad effaith integredig [HTML] | LLYW.CYMRU
- Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: asesiad effaith [HTML] | LLYW.CYMRU
- Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): asesiad o'r effaith ar y Gymraeg [HTML] | LLYW.CYMRU
- Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg: asesiad effaith integredig | LLYW.CYMRU
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg : Asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru
- Polisi seilwaith ieithyddol y Gymraeg: asesiad effaith | LLYW.CYMRU
- Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025: asesiad effaith | LLYW.CYMRU

7. **Dogfennau sy'n dangos integreiddio â Deddf Addysg a'r Gymraeg (Cymru) 2025 a rhaglenni cysylltiedig.**

Mae’r wybodaeth hon ar gael drwy’r ddolen ganlynol: Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 - Memorandwm Esboniadol.pdf

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod **ATISN** uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir